## Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru
## Negeseuon Allweddol Ionawr 2018

- *Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaeth Gwasanaethau Plant Gogledd Cymru – bu oedi mewn perthynas â pharodrwydd y ffurflen hon oherwydd y Rheoliadau Diogelu Data newydd, gobeithir y bydd ar waith erbyn mis Mawrth 2018.*

- *Offer Archwilio Diogelu Trydydd Sector Gogledd Cymru – cytunodd y rhai a oedd yn bresennol o gefnogi a chymeradwyo'r offer archwilio.* Bydd Suzanne Mollison o Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn rhoi diweddariad mewn 6 mis mewn perthynas ag effeithiolrwydd yr offer archwilio.

- *Plant sydd wedi'u Heffeithio gan fod Rhiant yn y Carchar* – diweddariad prosiect wedi'i gyflwyno gan Andy Jones, Y Gwasanaeth Prawf. Mae hwn yn brosiect dwy flynedd sydd yn ei flwyddyn gyntaf ar hyn o bryd. Diweddariad i'w roi i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf.

- *Cymorth i Ddioddefwyr Ymgyrch Lenten – adroddiad wedi'i rannu â'r grŵp, gellir rhannu'r adroddiad ag is-grwpiau ond rhaid ceisio caniatâd er mwyn ei ddosbarthu'n ehangach.* Bydd David Lewis o'r Uned Fusnes yn ymchwilio i drefnu digwyddiad dysgu.

- *Adroddiad Amlygu Conwy;* Rhoddodd RL drosolwg manwl o'r gwaith a wnaed gan CBSC mewn perthynas â'r Blaenoriaethau Allweddol a'r heriau diogelu a nodwyd gan CBSC. Mae adroddiadau amlygu Gwynedd a HGC wedi'u gohirio tan fis Mawrth. Atgoffodd JW y grŵp i gadw at yr amserlen gan y bydd hyn yn bwydo'r adroddiad blynyddol.

- *Diweddariad Adolygiad Ymarfer Plant-* yn ystod cyfarfod diwethaf y Grŵp Adolygiadau Ymarfer Plant, fe aeth y rhai a oedd yn bresennol drwy'r camau gweithredu nad oeddent eto wedi'u cwblhau. Mae gan saith o'r Adolygiadau Ymarfer Plant cyfredol gynlluniau gweithredu. 2 x Fforwm Ymarfer Aml-asiantaeth yn parhau; gofynnwyd i gau un Fforwm Ymarfer Aml-asiantaeth oherwydd yr amser a gymerodd i gwblhau. Cynhelir hyfforddiant APR / Adolygiadau Ymarfer Plant ym mis Chwefror a Mawrth.

- *Polisïau a Gweithdrefnau* - Mae Protocol Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol bellach wedi'i ddiwygio i gynnwys plant ac oedolion.

- *Gweithlu a hyfforddiant – mae llawer o ddadansoddiadau o anghenion hyfforddi diogelu wedi'u dychwelyd.* Mae Cathryn Williams o'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant hefyd wedi ymgymryd â dadansoddiad o anghenion hyfforddi cam-fanteisio'n rhywiol ar blant. Adolygiad CASCADE (adolygiad o brotocol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Cymru Gyfan) – Aelodau'r Bwrdd i fod yn ymwybodol o wahaniaethau bychain rhwng canllawiau Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yng Nghymru ac yn Lloegr. Mae gwaith yn parhau mewn perthynas â'r cyfarfod JIT ym mis Chwefror 2018.

- *Grŵp Protocol Cymru Gyfan – Marian Parry Hughes yn cynrychioli Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru; codwyd pryderon mewn perthynas â'r gweithdrefnau cenedlaethol hyd yma.* Bydd JW ac NA yn codi'r pryderon hyn â Llywodraeth Cymru a chadeiryddion byrddau diogelu eraill.

- *Diwrnod Cenedlaethol Codi Ymwybyddiaeth o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant – Mawrth 2018; mae'r Uned Fusnes a'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant yn*

*cydweithio i gynnal cynhadledd / seminar.* Cynhelir hyn ar 22 Mawrth, 10am – 4.15pm yng Ngholeg Cambria, Cei Connah, Glannau Dyfrdwy.